Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

ARHOLIAD AELODAETH SYLFAENOL

PAPUR 2

Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

4 Ebrill 2009

Awr a hanner

Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr

- Gwnewch yn siŵr eich bod chi wedi cael y papur cywir
- Cyfieithwch y ddau ddarn
- Cewch gyfieithu'r darnau mewn unrhyw drefn
- Peidiwch â chyfieithu ffynhonnell y darn a nodir ar ei ddiwedd

Cyn cyflwyno'ch sgript derfynol

- Sicrhewch fod eich rhif arholi, a'ch rhif arholi'n unig, ar ben pob tudalen o'ch sgript
- Dylech olygu eich gwaith yn fanwl o safbwynt ystyr, cywair, cystrawen a chywirdeb technegol cyn ei gyflwyno

PAPUR 2 SYLFAENOL – CYFIEITHU O'R GYMRAEG I'R SAESNEG

Darn 1

Ar hwyrnos o haf, a'r haul yn araf suddo tua'r gorllewin, prin fod golygfa well na honno o'r gornel rhwng Llanfair a Harlech lle byddwch chi'n edrych i lawr dros Forfa Harlech. Bryniau Pen Llŷn yn fframio llonyddwch Bae Tremadog, Moel Hebog, criw'r Wyddfa, y Cnicht a'r Moelwynion – yn wir holl ogoniant Eryri – yn cael ei oleuo'n binc gan belydrau olaf y dydd. Dyw traeth Dyffryn ddim tamaid yn llai hudolus wrth i'r Moelfre a'r Rhinogydd warchod ei hyd rhag tywyllwch y nos sy'n prysuro o'r dwyrain. Am eu golygfeydd diguro'n unig, mae Morfeydd Harlech a Dyffryn yn llefydd arbennig iawn.

Ond maent hefyd o bwys rhyngwladol am eu bod yn enghreifftiau penigamp o systemau twyni tywod – cynefin sy'n gymharol brin ar draws y byd. Maen nhw'n gyforiog o rywogaethau sy'n dibynnu ar y cynefin tywodlyd arforol.

Balm i'r enaid yw cael mwynhau, ar ddiwrnod braf o wanwyn, drydar diddiwedd cynifer o ehedyddion nes ei bod hi bron yn amhosibl eu cyfrif. Mae'r glannau, yn enwedig, yn noddfa i amryw o'r adar sy'n gaeafu yma.

Wrth gwrs, does dim lle i enwi'r holl rywogaethau sydd i'w cael ar y Morfeydd. Mae'r rhestr bron yn ddiddiwedd. Ar ben hyn oll, mae'r ddau safle hefyd yn bwysig o safbwynt astudio geomorffoleg arfordirol. Mae mwy o dywod agored yn system Dyffryn, a'r erydu'n broses ddiddiwedd ar hyd y glannau ac o du'r môr yn ogystal â phwysau gan bobl. Mae Morfa Harlech, ar y llaw arall, yn fwy sefydlog o ran gorchudd

y llystyfiant ac yn un o'r systemau twyni tywod prin sy'n tyfu wrth i dywod newydd gael ei ychwanegu ati'n gyson o'r môr.

(Addasiad o erthygl Rhodri Dafydd yn rhifyn Rhagfyr 2008 o'r *Naturiaethwr*)

PAPUR 2 SYLFAENOL – CYFIEITHU O'R GYMRAEG I'R SAESNEG

Darn 2

Mae marchnata'n ganolog i holl weithgarwch yr Eisteddfod ac yn cydymffurfio ar bob lefel â'r weledigaeth ganolog, sef hybu'r iaith Gymraeg drwy gynnal gŵyl ddiwylliannol yn flynyddol a mawrygu creadigrwydd lleol a chenedlaethol.

Ond peth anodd iawn ydy marchnata gweledigaeth. Mae gan bawb ei ganfyddiad ei hun o'r hyn ydy'r Ŵyl, o'r hyn a ddylai ddigwydd ynddi ac o'r hyn a fyddai'n eu denu i ymweld â hi. Mae ar farchnata effeithiol angen cynnyrch deniadol yn y lle cyntaf. Rhaid sicrhau, felly, fod cynnyrch yr Ŵyl o safon uchel, yn llawn asbri ac yn cynnig profiad gwerthfawr ac unigryw i bawb o bob cefndir.

Y camau cyntaf yw newid agweddau o'r tu mewn a'r tu allan, newid canfyddiad pobl sy'n cadw draw, creu awyrgylch newydd a phwysleisio rhinweddau unigryw'r Ŵyl yng nghalendr y genedl. Dydy pob cyhoeddusrwydd ddim o angenrheidrwydd yn dda ac mae sicrhau bod mwy o newyddion da na newyddion drwg yn gyfrifoldeb ar bawb sy'n awyddus i weld yr Eisteddfod yn llwyddo.

Mae angen ymdrech fawr, felly, i ymgyrraedd at gynulleidfa newydd o ymwelwyr yng Nghasnewydd. Er mor ddefnyddiol yw'r gronfa ddata wrth gynnal y gymuned o gyfeillion a chefnogwyr, rhaid cyrraedd y bobl sydd y tu allan i'r cylch ac yn chwilio am brofiad newydd drwy ymweld â'r Ŵyl.

Gan fod rhaid i strategaeth farchnata fod yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau a

chyfleoedd newydd, byddwn ni'n adolygu'r sefyllfa bob mis Medi i sicrhau bod y strategaeth yn cydredeg â chynllun marchnata blynyddol.

(Addasiad o adroddiad gweithgor i Gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2004)